## Crawling, not walking...

## by Simon Whitehead

*Rarely do infants crawl alone.*

Miranda Whall says that she has forgotten why she decided to crawl across the Cambrian mountains. So perhaps crawling was itself a way to remember?

A developmental algorhythm, a practice of intimacy with earth and the substance of her body through the yielding and push needed to traverse a mountain on all fours; a return to the low-down, pre-verbal somatic physicality of childhood; a move to the proximal; the world up close.

Whall's 'Crossed Paths' is a wide ranging enquiry, incorporating film, performance, the body, mountain and upland ecology with the multiple, de- centralised iterations of 8 collaborators and scientists. The central activity and practice of crawling seems rich with subversion. Miranda's view of the ground, the horizontality of her spine, hands, shins and feet along with the different, contralateral orientation of her limbs as she lopes head to tail, tail to head through the mountain in effect de-stabilises the many contemporary, adult, vertical and scholarly perspectives on landscape and performance.

*When children do cross-lateral movements (arm and leg movements that cross over from one side of the body to the other) the two sides of the brain are forced to communicate, and this strengthens the nerve-cell pathways linking both sides of the brain through the corpus callosum.*

A body all GoPro - a body all eyes. Cameras evidence the surrounding habitat as well as the multiple movements of the body; data is collected, but this also contains the kinetic information of how a body articulates in time, on all fours, across uneven ground. There is local affect here: the mountain, the animal, plant and other-than- human are implicated in these crawls, and often they get caught up in the hardware. Miranda enters an already complex upland ecosystem, becomes briefly woven in and creates an immediate and fugitive series of performative reverberations.

Crawling occurs as a practice in many religious and ritual ceremonies, parades and pilgrimages. Often as an act of absolution, it has also been used as a strategy in performance. In 2000, Andre Stitt crawled across Belfast: *Conviction* was an act of remembrance of the Ireland he grew up in and an act of penance for The Troubles. Urban and highly public, Stitt crawled whilst ritually being tarred and feathered.
Miranda, in contrast, chooses the relative human isolation of the Cambrian mountains in the uplands of mid Wales, the complexity of topology and ground cover, the exposure to weather and the incidental fellowship with other life forms. She wears technical clothing beneath a ritual totemic dead sheep's fleece. Whilst crawling she is sheep-like; as she stands, black underbelly, GoPro cameras and red shoes exposed, she appears comical, a child in dress ups, uncanny. She comments: 'The core, the weight and volume of my body is absent in both documentations of my experience... The substance of me is absent in both. The landscape is the subject, I am the object from which, because of which, the landscape is seen.'

Somewhat ironically Miranda describes her practice as 'following in the footsteps..' of a canon of male artists who walk. Crawling usually occurs before walking, it is rich with the ground, with plant life, the insect realm, with dirt and the topology of the mountain. It begets a child's perspective to landscape; a low-down, breathy, sweaty, haptic and cross-lateral physicality, one that prepares the child-body and -brain's capacity to learn and communicate. Whall describes the experience in her Blog as 'utter abandonment, pure unadulterated joy' and feeling 'empowered and dynamic, defiant and invincible'. The return to all fours is a route to remembering...

*As the limbs develop control and coordination, meaningful interaction with others and with the world around becomes increasingly possible. First she learns to yield weight through each limb, establishing a rooted connection with the ground; out of this supportive contact she pushes herself up and out of gravity.*

Whall describes the book, The Living Mountain by Nan Shepherd as an inspiration to the project. Shepherd writes of the entering of the mountain, the going 'in' is 'all'. The action of crawling therefore brings Miranda's attention and ours into the matter of the mountain. The hybrid human / four limbed animal 'hefts' onto the surface, and the tactility with this habitat is an embodied, all consuming encounter. The up-close mountain has texture, provides friction, a weave in which Whall becomes interwoven, and as she progresses it moves and snags and brushes in counterpoint to her crawls.

Line drawings are the artefacts that remain. Simple marks left by crawling, reduced inscriptions uploaded from GPS. These are the digital, remote tracings of her body in space. I wonder, what are the traces left in the body by the touch of the mountain and the reciprocal pressures between body and ground? Indeed, maybe it is Miranda's body that still contains the mountain and remembers its behaviours and rhythms?

A dance ensues...a performance of the mountain, as remembered by the body that crawled into it.

*As he learns to reach out and move beyond his established boundaries, a myriad of interactions, and also responses from the environment, open up. Desire, frustration, fear, pleasure, rage, delight, shame are evoked, and the infant's sense of a subjective self begins to develop.*

The different patterning and physiology needed to crawl, the learning to crawl again, engenders a different body and opens other, or forgotten, neural and muscular pathways. Through touching and being touched by the mountain and its elements the cells and tissues retain the experience as well as returning to a formative time. In somatic movement therapy adults are often encouraged to crawl, so that neural and physiological patterning can be reintegrated and insight into how early experience affects behaviour and current perceptions can surface.

Miranda describes herself as a *'facilitator, the sheep/human is a porter - collecting and carrying cultural, social, political and environmental data.'*

Anthropologist Kenneth R Olwig, in his text *'Performing on the Landscape versus Doing Landscape', concludes...'we are all like sheep, hefting to the land and to each other, doing landscapes to which we belong both bodily and socially, with all our senses; both eyes wide open.'*

Perhaps Miranda through her crawls is also physically modelling something for us: an invitation to enmesh, to heft again. To bring our bodies to the ground, to each other, to animal. The animal agent teaches us again how to belong, to be in, on and around...to bodily know, and practice our place again, amongst the weave of things.

Includes excerpts from: Seeking a Sense of Self
by Linda Hartley, Somatic Psychotherapist
2005.

## Cropian, nid cerdded...
## by Simon Whitehead

*Yn anaml fydd babanod yn cropian ar eu pen eu hun.*

Yn ôl Miranda Whall, mae wedi anghofio pam benderfynodd gropian ar draws mynyddoedd Cambrian. Efallai bod cropian yn ei hunan yn ffordd o gofio felly?

Algorithm datblygiadol, ymarfer o agosatrwydd at y ddaear a sylwedd ei chorff trwy'r ildio a'r gwthio oedd eu hangen i groesi mynydd ar ei phedwar; dychwelyd at gorfforoldeb agos i'r llawr, cyn llefaru, somatig plentyndod; symud tuag at y procsimol; golwg agos ar y byd.

Mae ‘Crossed Paths’ gan Whall yn ymholiad pellgyrhaeddol sy’n cynnwys ffilm, perfformiad, y corff, ecoleg fynyddig ac ucheldirol, gydag amryfal iteriadau datganoledig gan 8 o gydweithredwyr a gwyddonwyr. Mae'n ymddangos bod y gweithgaredd canolog a'r ymarfer o gropian yn rhyfeddol o  danseiliol. I bob pwrpas, mae golwg Miranda ar y ddaear, llorwedd-dra ei hasgwrn cefn, ei dwylo, ei chrimogau a'u thraed, ynghyd â gogwydd gwahanol, cydgyferbyniol ei haelodau wrth iddi frasgamu pen wrth gwt, cwt wrth ben drwy'r mynydd, yn dadsefydlogi’r llu o bersbectifau cyfoes, fertigol, ysgolheigaidd, person mewn oed ar dirwedd a pherfformio.

*Pan fod plant yn gwneud symudiadau trawsochrol (symudiadau'r breichiau a'r coesau sy'n croesi o un ochr y corff i'r llall), mae dwy ochr yr ymennydd yn cael eu gorfodi i gyfathrebu, ac mae hyn yn cryfhau llwybrau’r nerfgelloedd sy’n cysylltu dwy ochr yr ymennydd drwy'r corpus callosum.*

Corff sy'n GoPro i gyd - corff sy'n llygaid i gyd. Mae camerâu'n dangos y cynefin amgylchynol ynghyd ag amryfal symudiadau'r corff; cesglir data, ond mae'r rhain hefyd yn cynnwys gwybodaeth ginetig am sut mae corff yn ymgymalu’n gydamserol, ar ei bedwar, ar draws daear anwastad. Gwelir effaith leol yma: mae'r mynydd, yr anifail, y planhigyn, a phethau nad ydynt yn ddynol ymhlyg yn y cropian hwn, ac yn aml cânt eu cipio yn y caledwedd. Mae Miranda yn mynd i mewn i ecosystem ucheldirol sy'n gymhleth yn barod, yn cael ei gwehyddu yn hon am ennyd, ac yn creu cyfres ddisyfyd a diflanedig o ddatseineddau perfformiadol.

Mae’r arfer o gropian yn digwydd mewn llawer o seremonïau, paredau a phererindodau crefyddol a defodol. Yn aml mae'n weithred o faddeuant pechodau, ac mae hefyd wedi cael ei ddefnyddio fel strategaeth mewn perfformio. Yn 2000, cropiodd Andre Stitt ar draws Belfast: roedd *Conviction* yn weithred i gofio am yr Iwerddon y cafodd ei fagu ynddi ac yn weithred o benyd am y Trafferthion. Cropiodd Still mewn amgylchedd trefol ac yn dra chyhoeddus gan gael ei goltario a'i bluo'n ddefodol.
Mewn cyferbyniad, mae Miranda wedi dewis yr unigedd dynol cymharol a brofir ym mynyddoedd Cambrian yn ucheldiroedd canolbarth Cymru, cymhlethdod y dopoleg a'r llystyfiant, bod yn agored i'r tywydd, a'r cyfeillachu achlysurol gyda ffurfiau eraill ar fywyd. Mae'n gwisgo dillad technegol dan gnu dafad wedi marw sy'n dotemig ac yn ddefodol. Wrth iddi gropian, mae'n debyg i ddafad; wrth iddi sefyll, ei bol du, y camerâu GoPro a'i hesgidiau coch yn y golwg, mae'n ymddangos yn gomig, yn rhyfedd, fel plentyn wedi gwisgo i fyny. Meddai: ‘Mae craidd, pwysau a chyfaint fy nghorff yn absennol yn nwy ddogfennaeth fy mhrofiad... Mae fy sylwedd yn absennol yn y ddwy. Y dirwedd yw'r goddrych, y fi yw'r gwrthrych o ble, a thrwy'r hwn, y gwelir y dirwedd.’

Yn eironig braidd, mae Miranda yn disgrifio'i hymarfer fel ‘dilyn yn ôl troed..’ canon o artistiaid gwrywaidd sy'n cerdded. Fel arfer, mae cropian yn digwydd cyn cerdded, mae wedi ymdrwytho yn y ddaear, mewn planhigion, yn nheyrnas y pryfed, mewn baw, ac yn nhopoleg y mynydd. Mae'n creu safbwynt plentyn ar y dirwedd: corfforoldeb agos i'r llawr, chwythlyd, chwyslyd, haptig a thrawsochrol, un sy'n paratoi capasiti corff ac ymennydd y plentyn ar gyfer dysgu a chyfathrebu. Mae Whall yn disgrifio'r profiad yn ei Blog fel ‘ymollyngiad llwyr, llawenydd pur, dilwgr’ ac fel teimlo ‘wedi ei grymuso ac yn ddynamig, yn herfeiddiol ac yn anorchfygol’. Mae dychwelyd i fod ar ei phedwar yn llwybr tuag at gofio...

*Wrth i aelodau’r corff ddatblygu rheolaeth a chydgysylltiad, mae rhyngweithio ystyrlon gydag eraill a gyda'r byd o gwmpas yn dod yn fwyfwy posibl. Yn gyntaf mae'n dysgu sut i ildio pwysau drwy bob aelod, gan sefydlu cysylltiad gwreiddiog â'r ddaear; yn ymgodi o’r cyswllt cynhaliol hwn, mae'n ei gwthio ei hun i fyny ac allan o ddisgyrchiant.*

Mae Whall yn disgrifio'r llyfr, The Living Mountain gan Nan Shepherd fel ysbrydoliaeth i'r prosiect. Mae Shepherd yn ysgrifennu am fynd i mewn i'r mynydd, mae'r mynd ‘i mewn’ yn ‘bopeth’. Felly mae'r weithred o

gropian yn tynnu sylw Miranda a'n sylw ninnau at fater y mynydd. Mae'r croesiad o fod dynol / anifail pedwar aelod yn ‘ymlynu’ wrth yr wyneb, ac mae'r hydeimledd â'r cynefin hwn yn gyfarfyddiad corfforedig, hollysol. Mae gwedd i'r mynydd pan y'i gwelir yn agos, mae'n darparu ffrithiant, gwead y mae Whall yn cael ei hymblethu ynddo, ac wrth iddi symud ymlaen mae'r gwead yn symud ac yn rhwygo ac yn ysgubo heibio iddi fel gwrthbwynt i'w chropian.

Llinluniau yw'r arteffactau sydd ar ôl. Marciau syml a adewir wrth gropian, arysgrifau o faint llai a lwythwyd i fyny o GPS. Y rhain yw'r dargopïau digidol, anghysbell o'i chorff mewn gofod. Ys gwn i beth yw'r mymrynnau a adewir yn y corff gan gyffyrddiad y mynydd a'r pwysau cyfatebol rhwng corff a daear? Yn wir, efallai mai corff Miranda sy'n dal i gynnwys y mynydd ac sy'n cofio'i ymddygiadau a'i rythmau?

Mae dawns yn dilyn...perfformiad gan y mynydd, fel y caiff ei gofio gan y corff a gropiodd i mewn iddo.

*Wrth iddo ddysgu i ymestyn a symud y tu hwnt i'w ffiniau sefydledig, mae myrdd o ryngweithiadau, a hefyd ymatebion gan yr amgylchedd, yn ymagor. Mae awydd, rhwystredigaeth, ofn, pleser, llid, hyfrydwch, cywilydd yn cael eu hysgogi, ac mae ymdeimlad y baban o hunan goddrychol yn dechrau datblygu.*

Mae'r gwahanol batrymu a'r ffisioleg sydd eu hangen er mwyn medru cropian, y dysgu sut i gropian eto, yn creu corff gwahanol ac yn agor llwybrau nerfol a chyhyrol eraill, neu anghofiedig. Trwy gyffwrdd, a chael eu cyffwrdd gan y mynydd a'i elfennau, mae'r celloedd a'r meinweoedd yn cofio'r profiad ynghyd ag yn dychwelyd at amser ffurfiannol. Mewn therapi symud somatig, mae oedolion yn aml yn cael eu hannog i gropian, fel y gall y patrymu nerfol a ffisiolegol gael ei adfer ac y gall dealltwriaeth o sut mae profiad cynnar yn effeithio ar ymddygiad a chanfyddiadau ddod i'r wyneb.

Mae Miranda yn ei disgrifio ei hun fel *‘hwylusydd, mae'r ddafad/bod dynol yn gludwr – sy'n casglu ac yn cario data diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol’*

Yn ei destun ‘Performing on the Landscape versus Doing Landscape’, mae'r anthropolegwr Kenneth R Olwig yn dod i'r casgliad...‘*rydym bob un yn debyg i ddefaid, yn ymlynu wrth y tir ac wrth ein gilydd, yn gwneud tirweddau yr ydym yn perthyn iddynt yn gorfforol ac yn gymdeithasol, gyda'n holl synhwyrau; a gyda'n dwy lygad ar agor led y pen.’*

Efallai bod Miranda, drwy ei chropian, hefyd yn modelu rhywbeth yn gorfforol ar ein cyfer: gwahoddiad i ymrwymo, i ymlynu unwaith eto. I ddod â'n cyrff at y ddaear, at ei gilydd, at anifail. Mae'r cyfrwng anifeilaidd yn ein haddysgu sut i berthyn, i fod yn, ar, ac o gwmpas ... i adnabod yn gorfforol, ac i arfer ein lle unwaith eto ymhlith gwead pethau.

Yn cynnwys dyfyniadau o: Seeking a Sense of Self
gan Linda Hartley, Seicotherapydd Somatig, 2005.